**COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**MAI 25AIN 2023 AM 7:30Y.H**
**CYNHALIWYD YN FESTRI PANDY TUDUR**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Sara Thomas (ST), Einir Williams (EW) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Austin Roberts (AR)

**1.4** Absennol: Gwydion Jones (GJ)

**1.5** Croesawodd CR hefyd aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod sef Non Davies.

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

7.1 AV

**3 DEWIS SWYDDOGION**

Cadeirydd - MGD yn cynnig CR, EW yn eilio, pawb yn cytuno. CR yn cytuno i wneud am flwyddyn arall.
Is-gadeirydd - JR yn cynnig EW, MGD yn eilio, pawb yn cytuno. EW yn cytuno i wneud.
Trysorydd - y Clerc fydd yn gwneud hyn o hyn ymlaen.

<u>Is-bwyllgorau</u>

- Mynwentydd - AV, MD, CR yn fodlon fod ar yr is-bwyllgor hwn
- Llwybrau - EW, DR a MGD yn fodlon bod ar yr is-bwyllgor hwn.
- Pwyllgor y Ganolfan - CR yn cynrychioli ar y funud. CR yn cynnig MD i fynd ar y pwyllgor y ganolfan efo fo, MD yn cytuno.
- Llywodraethwyr - ST yn cynrychioli
- Amgueddfa Syr Henry Jones - y Cadeirydd CR i gynrychioli yma.

DR yn cynnig cael is-bwyllgor amgylchedd hefyd. CR yn cynnig amgylchedd a llwybrau ar y cyd.
Yr is-bwyllgorau i gwrdd yn chwarterol.

**4 COFNODION EBRILL 29AIN 2023 I'W GWIRIO**

Cynigwyd yn gywir gan ac eilwyd gan .

**5 MATERION YN CODI**

**5.1** Ateb gan Gomisynnydd y Gymraeg i fy nghwestiwn:
"'Oes rheolau cyfreithiol o ran rhaid darparu cyfieithydd ar y pryd?"
Ateb:
"Yr ateb syml ydy, nac oes, does dim rheolau cyfreithiol i'ch gorfodi i ddarparu cyfieithydd ar y pryd. Mae'n gwbl briodol i gynghorau cymuned fabwysiadu polisi sy'n datgan y bydd yn cynnal ei gyfarfodydd ac yn gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae polisi o'r fath i'w groesawu. Mae gan gynghorau cymuned rôl bwysig i'w chwarae yn nyfodol a pharhad y Gymraeg fel iaith gymunedol, fyw. Mae nifer dda ohonynt mewn sefyllfa i gynnig cyfle prin i'r cyhoedd ac aelodau etholedig gyfrannu at fywyd cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny wrth drafod materion sy'n effeithio arnynt hwy a'u cymunedau.

Rwy'n sicr eich bod yn ymwybodol o ganllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned, Canllaw'r Cynghorydd Da, sy'n nodi:

“Mae’r cyngor cymuned neu dref gorau yn cynrychioli pob rhan o’i gymuned ac yn creu ymdeimlad o berthyn. Ei nod yw bod yn gynhwysol drwy sicrhau nad yw neb yn teimlo o dan anfantais. Yn arbennig, rhaid iddo sicrhau na chaiff pobl sy’n defnyddio’r Gymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf (neu siaradwyr ieithoedd eraill) eu heithrio”.

Felly, mae’n glir fod gan gynghorau cymuned yr hawl i gynnal cyfarfodydd ac i weinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond wrth benderfynu ar ddarparu cyfieithydd ar y pryd neu beidio, dylid ystyried canllaw y Llywodraeth.
EW yn cynnig y dylem ychwanegu hyn mae’r comisiynydd iaith wedi ei ddweud i’r rheolau statudol.

**5.2** Ateb gan Un Llais i fy nghwestiwn:
"Oes angen i unigolyn ddatgan os ydynt yn ymwybodol o ddatblygiad arbennig yn yr ardal?”
Ateb:
“Os bydd eitem yn ymddangos ar y rhaglen a bod gan Gynghorydd fuddiant yna mae'n rhaid iddo/iddi ddatgan buddiant dan delerau'r cod ymddygiad. Beth bynnag, os yw Cynghorydd yn gwybod am ddigwyddiad a fydd yn cael effaith sylweddol ar eu cymuned, yna, yn foesol, mae rhwymedigaeth arno i ddod ag ef i sylw’r Cyngor”.

DR yn sôn fod Sharon Jones (cwrs trwy Un Llais) wedi dweud wrthi y dylai datganiad ddigwydd hyd yn oed os nad yw ar yr agenda a Darren Millar wedi dweud wrthi ei fod i fyny i farn yr unigolyn. MGD yn nodi nad oes un ymateb yn gyson sydd yn gwneud i chi feddwl mai barn pawb yn unigol ydyw. CR yn sôn fod hyn wedi ei drafod droeon mewn cyfarfodydd a bod angen symud ymlaen a pheidio trafod y pwnc eto.

**5.3** Ateb gan Un Llais i fy nghwestiwn:
“Oes raid datgan buddiannau fel mae’r Cyngor Sir yn ei wneud?”
Ateb:
“Nid oes angen gwneud hynny, does dim rheolau fel y Cyngor Sir o ran asedau i Gyngor Cymuned.
DR yn nodi fod rhestr buddiannau ar y wefan.

**5.4** Wedi derbyn e-bost gan Non Davies a oedd yn bresennol yng nghyfarfod mis Mawrth yn gofyn am gynnwys ei henw wrth y cwestiwn a chynnwys y cwestiwn.
Y cwestiwn a ofynnwyd oedd: “ Dynodiad Llywodraeth Cymru o ardaloedd 'wedi ei asesu' ar gyfer safleoedd tyrbeini diwydiannol 250m uchder - gyda phlwyfi Gwytherin, Pandy Tudur, Llangernyw a Throfarth wedi eu cynnwys o fewn Ardal 1 - yw'r datblygiad polisi mwyaf grymus a phell cyrhaeddol erioed. Ydy Cyngor Cymuned Llangernyw (nad oedd yn ymwybodol o'r dynodiad) a'r cynghorwyr cymuned yn hyderus eu bod hwy a thrigolion yr ardal yn deall, ac wedi ystyried goblygiadau llawn y dynodiad hynny?”

**5.5** - AV wedi cysylltu gyda Darren Millar drwy lythyr i ofyn am yr arwyddion ‘Beicio’n saff’ yr un fath a Llanrwst. Mae’r Cyngor Sir am asesu’r ffordd rhwng Llangernyw a Llanfair yr wythnos hon ac os oes angen mi wnawn nhw roi’r posteri i fyny.

**5.6** AV yn nodi fod mainc yn y fynwent wedi pydru. Kate Williams am roi mainc yn is i lawr. Roedd Kevin a Ruth yn y fynwent ar yr un pryd a bydd Kevin am osod y fainc newydd yr wythnos hon.

**6 CEISIADAU CYNLLUNIO**
**6.1** Cais Rhif 0/50753 - Bryn Clochydd, Gwytherin LL22 8YA. Pawb yn cefnogi.

**7 MATERION CYNGOR**
**7.1** Cynllun Cymru'r dyfodol 2040 - Hysbysiad fod cyfarfod safle tyrbeini diwydiannol Moelfre ar Orffennaf 13eg 2023 yn neuadd bentref Betws yn Rhos am 7.30 y.h.
Non Davies yn siarad am y cyfarfod ac yn dweud nad yw'n bosib dweud pa effaith fyddai wedi bod pe bai cynghorydd wedi dweud yn gynt. Fe ddywedodd ei bod ar ddeall bod Un Llais wedi ymgynghori gyda chynghorau cymuned ond doedd neb yn gwybod am bolisi Llywodraeth Cymru. CR yn dweud y gwnaiff hysbysu eto am y cyfarfod ym mhwyllgor mis Mehefin.

**7.2** CWG wedi derbyn e-bost gan Tracy Gilmartin am sesiwn arloesedd yn y Sioe Frenhinol ar 5.7.23. Y Cynghorwyr i gysylltu gyda CWG os ydynt gyda diddordeb mynychu. CWG i e-bostio'r wybodaeth ymlaen i MGD.

**7.3** Yswiriant y cyngor - llythyr adnewyddiad gyda BHIB wedi dod trwodd ac yn £428.13. DR yn dweud ein bod wedi defnyddio'r cwmni o'r blaen. Pawb yn cytuno i gario ymlaen gyda BHIB.

**7.4** Sedd wag yng Ngwytherin - does neb wedi cysylltu a neb wedi gofyn am etholiad. Bydd angen rhoi 3 hysbyseb am sedd wag (yn y 3 pentref ac ar y wefan) a gofyn am geisiadau. Bydd unrhywun sydd efo diddordeb angen ysgrifennu llythyr i'r cyngor. Bydd yr hysbyseb angen mynd allan erbyn dydd Llun gyda'r dyddiad cau yn Mehefin 19eg. CWG wedyn i gylchredeg y ceisiadau gyda'r agenda i'r cynghorwyr. Mae Leanne o Gyngor Conwy yn gallu cynorthwyo gyda hyn.

**7.5** Gwefan y Cyngor Cymuned - CWG yn gofyn a oes ffordd o gael mwy o ddefnydd o'r wefan ac efallai defnyddio gwefannau cymdeithasol megis *Facebook* i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau gyda'r ardal. MGD yn cynnig gweld faint o 'hits' mae'r wefan yn ei chael a meddwl am hyrwyddo hwnnw yn hytrach na defnyddio gwefannau cymdeithasol.

**8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

**8.1.** Ffordd Ty'n Pistyll Glan Collen wedi'w batchio a sgalpins wedi eu gosod ar fannau pasio rhwng Lead Inn a Dolgoch .

**8.2.** Cŵn - does dim modd cael caniatâd gan y Cyngor Sir i gerdded eich cŵn ar gaeau chwarae os oes yna arwyddion yn gwahardd hynny (ond does dim modd plismona hynny). JR yn dweud nad oes dim bagiau na baw ar y palmant ers i'r arwyddion fynd i fyny. Hefyd, mae'r arwyddion oedd wedi diflannu yn ôl rŵan.

**8.3.** Ar ôl ymholiad gyda'r adran gyfreithiol y cyngor sir, os oes unrhyw un a chysylltiad ag eitem sydd ar yr agenda yna mae'n rhaid datgan barn bersonol neu rhagfarnllyd ar yr eitem hynny cyn cychwyn y cyfarfod ac os yw'r cysylltiad yn un rhagfarnllyd yna mae yn rhaid gadael yr ystafell.

**8.4** Rhaid hefyd ddatgan unrhyw rodd a wneir i unrhyw fudiad neu gwmni sydd yn ymwneud â materion sydd ar yr agenda ac fe fernir hynny'n ddatganiad rhagfarnllyd . Hefyd, rhaid gwneud datganiad ar y pryd mewn achos o faterion yn codi . Yn olaf, os yw rhywun yn datgan eu bod am roi rhodd i unrhyw fudiad neu gwmni ond heb wneud hynny, ac yn gwneud datganiad i'r perwyl hynny yn y cyfarfod nesa, yna mae'n rhaid derbyn eu gair.

**8.5.** Mae'r mast yn Merddyn a cheisiadau cynllunio Ffridd Bach a Ficerdy Pandy wedi'w cymeradwyo.

**9 MATERION ARIANNOL**
Bancio ar y we - EW am helpu CWG

DR yn dweud fod Iona am archwilio'r cyfrifon ac ein bod yn dal i aros am TAW i ddod i mewn. Nid yw'r arian llwybrau wedi dod i mewn eto.

**10 GOHEBIAETH**
**10.1** Baw ci ym mynwent Gwytherin - cynigion o gamerâu bywyd gwyllt i gadw golwg. MD yn sôn eu bod ddim ond yn ffilmio pan fo pethau'n symud. SW yn nodi fod yn rhaid rhoi arwyddion i ddweud bod TCC ("*CCTV*")o gwmpas. MD yn gobeithio y byddai arwydd TCC yn ddigon i atal rhai. EW yn sôn fod baw ci oherwydd cŵn yn cael eu gollwng yn rhydd a DR yn dweud fod hyn yn digwydd yng Nglan Collen. AV wedi cael pris am arwyddion 'dim baeddu' gan gwmni arwyddion *PR signs* - £14 + TAW yr un. Penderfynwyd cael 2 arwydd i Wytherin. CR yn gofyn i AV ofyn i'r cwmni i wneud arwydd TCC hefyd fel arwydd ar wahân.

**10.2** Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023
Gwahoddir aelodau o gynghorau i gyflwyno **uchafswm o ddau** gynnig i'w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar Ddydd Sadwrn y 30ain Medi 2023, y mae'n rhaid iddynt gyrraedd yn y swyddfa erbyn **<u>canol dydd ar ddydd Iau 23 Mehefin 2023 man pellaf</u>** er mwyn i Bwyllgor Cynigion Gynhadledd eu trafod.

**Er mwyn i gynigion fod yn dderbyniol, mae'n rhaid bodloni'r gofynion canlynol:**

Mae'n rhaid i gynnig adlewyrchu mater neu broblem genedlaethol – ni all Un Llais Cymru dderbyn cynigion sydd ond yn berthnasol i un ardal arbennig. (Gellir trafod materion lleol mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Ardal.)

**Rhaid** i bob cynnig gynnwys nodyn esboniadol byr (heb fod yn fwy na 150 gair) er mwyn i'r Pwyllgor Agenda ddeall yn llawn y pwyntiau sy'n cael eu gwneud.

EW - codi consyrn efo'r adroddiad blynyddol - pwysau mawr bob 3 mlynedd efo'r awdit - cyngor cymuned nid sir ydym ni ac mae yn or-feichus.

**10.3** Adroddiad Blynyddol/Awdit - wedi derbyn e-bost yn dweud fod yr amser i'w gyflawni wedi cyrraedd. CWG i gysylltu gyda Iona er mwyn ei gyflawni.

**10.4** Rheolau Sefydlog - wedi eu gyrru i bawb ar e-bost. Pawb i ddarllen ac i'w trafod y mis nesaf

**10.5** - Cofgolofnau'r Dyffryn wedi cysylltu yn gofyn faint yw'r gost o arysgrifau newydd ac ychwanegol. CWG am gysylltu yn ôl i ddweud nad oes cost am hyn, dim ond costau claddu.

**11 BILIAU**
**11.1** Dŵr Cymru - nid ydynt yn derbyn sieciau fel taliad bellach. CWG wedi cysylltu gyda MGD, bydd angen gosod talu ar er lein. CWG i gysylltu gyda dŵr Cymru i egluro'r sefyllfa.

**11.2** Bil Enlli - £90 a 2 awr - isafswm cyflog wedi codi - EW yn cynnig ei godi i'r isafswm, pawb yn cytuno.

**11.3** CWG i gyflwyno'r mis nesaf - contract i'w yrru i bawb i'w ddarllen er gwybodaeth.

**11.4** Cofrestru gyda'r ICO - £40 - pawb yn cytuno i dalu

**11.5** Kevin Roberts - gosod camfa ger Tŷ Capel Ainion ayyb - £280 + vat £336 - pasiwyd i dalu

**11.6** Dei Evans - Mynwentydd £450, pasiwyd i dalu

**11.7** AV Blodau a chompost - £85.80, pasiwyd i dalu. AV yn sôn fod Jackie wedi bod yn potio blodau, CWG i decstio i ddiolch.

**12 MATERION LLEOL**

**EW** - cwyn am goeden wedi disgyn ar draws llwybr cyhoeddus sef llwybr Hafodunos. DR o dan yr argraff fod y tirfeddiannwr am sortio. CR yn cynnig gofyn i Kevin am dorri'r goeden. JR yn sôn fod safon y llwybr yn gyffredinol wedi dirywio ond EW yn dweud mai mater i'r Cyngor Sir ydyw.
**EW** - mae derbynnydd *wi-fi* wedi ei osod ar bolyn wrth y giât i'r cae chwarae yng Ngwytherin, bydd yn codi'r mater gydag Austin.
**DR** yn gofyn a yw'r fynwent wedi ei thorri gan fod tyfiant o gwmpas y coed bach. AV wedi cysylltu gyda Dei a ddim am wythnos a hanner arall.
**DR** - tractorau gyda threlars seilej - pobl leol / oedrannus ddim yn mynd am dro, ofn. Angen torri clawdd wrth ochr y 20 m.y.a - methu gweld yr arwydd.
**JR** - ffyrdd ar gau - llawer o draffig ar y ffordd rhwng trofa Ty'n Ddôl at Gefn Isa - andros o lithrig a wyneb dros-dro ers blynyddoedd. JR i e-bostio Austin gan ei fod yn fater iechyd a diogelwch brys.
**AV** yn sôn fod angen torri o amgylch y coed bach yng ngwaelod y fynwent.
**AV** - Eifiona Hendre Bach - dŵr yn llifo i'r tŷ ers codi'r lôn. Dŵr yn dod lawr o gaeau Tŷ Newydd. EW am e-bostio Austin i ddweud am hyn.
**AV** - sgipiau gan y Cyngor Sir i Wytherin a Phandy Tudur. CWG i e-bostio ERF Conwy i'w archebu a'i hysbysebu yn y Gadlas a'r hysbysfyrddau. EW i yrru templad o hwn i CWG.

**13 CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher Mehefin 28ain 7:30y.h, Canolfan Addysg Bro Cernyw
Cyfarfod yn dod i ben am 9:35
Cymerwyd y cofnodion gan CWG